# THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION
# CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefydlwyd 1943  Registered Charity/Elusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

# Cyfansoddiad

## Cynnwys

## Cyfansoddiad Cymdeithas Gwenynwyr Cymru


1. Mabwysiadu'r Cyfansoddiad 3

2. Enw 3

3. Amcanion 3

4. Cymdeithas Gwenynwyr Cymru 3

5. Tîm Rheoli Cymdeithas Gwenynwyr Cymru 4

6. Cyfarfodydd Cyffredinol 4

7. Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol 4

8. Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig 5

9. Cyngor Cymdeithas Gwenynwyr Cymru 5

10. Cyfarfodydd y Cyngor 6

11. Rhybudd a diffiniad o gyfarfodydd 6

12. Cworwm 7

13. Cadeirydd 7

14. Gohiriadau 7

15. Pleidleisiau 8

16. Cynrychiolwyr Aelod-Gymdeithasau ac Aelodau Unigol 8

17. Dosbarthiadau Aelodaeth 8

18. Terfynu Aelodaeth 10

19. Ymddiriedolwyr 11

20. Penodi Ymddiriedolwyr, Llywydd ac Is-lywyddion CGC 11

21. Pwerau'r Ymddiriedolwyr 12

22. Diarddel a Symud Ymddiriedolwyr 13

23. Gweithrediadau'r Ymddiriedolwyr 13
24. Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthdaro Teyrngarwch 15
25. Darpariaethau Cynilo/Afreoleidd-dra o ran Gweithredu 15
26. Dirprwyo 16
27. Cofnodion 17
28. Cyfrifon, Adroddiad Blynyddol, Datganiad Blynyddol 17
29. Manylion a Gofrestrwyd 18
30. Eiddo 18
31. Atgyweirio ac Yswiriant 18
32. Hysbysiadau 18
33. Rheolau 19
34. Anghytuno neu Anghydfod 19
35. Dehongli 20
36. Defnyddio Incwm ac Eiddo 20
37. Buddiannau a Thaliadau i Ymddiriedolwyr CGC a Rhai Cysylltiedig 21
38. Diddymu 22
39. Diwygio'r Cyfansoddiad 23

# Cyfansoddiad Cymdeithas Gwenynwyr Cymru

a fabwysiadwyd ar 7 Tachwedd 2015 a'i ddiwygio ar 6 Mawrth 2021

**1. Mabwysiadu'r Cyfansoddiad**

Bydd y gymdeithas a'i heiddo'n cael ei gweinyddu a'i rheoli'n unol â'r darpariaethau yn y cyfansoddiad hwn.  Y fersiwn Saesneg yw'r fersiwn terfynol. Bydd y Cyfansoddiad ar gael i'r cyhoedd.

**2. Enw**

Enw'r gymdeithas yw CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU - THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION (ac yn y ddogfen hon fe'i gelwir yn "CGC").  Mae CGC yn elusen wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau – Rhif Cofrestru 509929.

**3. Amcanion**

Amcanion CGC ('yr amcanion') yw annog, gwella, hyrwyddo a hybu gwenyna a thrwy hynny fod o les i'r cyhoedd ac i'r amgylchedd ledled Cymru.  .

**4. Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**

1) Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn Gymdeithas sydd wedi'i rheoli a'i gweinyddu gan ei Hymddiriedolwyr etholedig, y gall grwpiau gwenyna lleol yng Nghymru fod yn gysylltiedig â hi.  Aelod-Gymdeithasau yw'r enw ar y grwpiau gwenyna lleol cysylltiedig.

2) Er mwyn hyrwyddo amcanion CGC ac yn ychwanegol at y rhain ond nid heblaw am hynny, mae CGC yn gweithio gyda'r holl Aelod-Gymdeithasau a'r Aelodau Unigol a thrwyddynt er mwyn:-

a) Datblygu cydweithrediad ymysg holl geidwaid gwenyn ledled Cymru a'u hannog i gyfnewid syniadau a phrofiad o bob agwedd ar y grefft.

b) Gwella safon cadw gwenyn drwy:

i. Gyhoeddi llenyddiaeth.

ii. Darparu cymhorthion addysgol ynghyd â deunyddiau ynghylch cadw gwenyn a chynorthwyo'r gwaith o'u darparu.

iii. Annog y gwaith o hyfforddi a chymhwyso pobl a fyddai'n helpu i gyflawni dibenion CGC.

c) Trefnu arholiadau cenedlaethol ar wahanol lefelau.

ch) Cydweithredu a chydlynu ag Adrannau'r Llywodraeth ym mhob maes sy'n ymwneud â gwenyna.

d) Cydweithredu â Chymdeithasau Cenedlaethol eraill ac â mudiadau sydd â diddordeb mewn ymchwil a gwaith arall sy'n gysylltiedig â chadw gwenyn, amaethyddiaeth, garddwriaeth a ffurfiau eraill ar reoli tir.

dd) Codi arian trwy danysgrifiadau, rhoddion, grantiau ac unrhyw ddulliau cyfreithlon eraill.

e) Annog y gymuned i gymryd rhan wrth arsylwi ar wenyn a dysgu amdanynt mewn ffordd ddiogel, a datblygu gwerthfawrogiad o werth sylfaenol gwenyn i'n cadwyn fwyd ac i'r amgylchedd yn gyffredinol.

f) Gwneud pob peth arall cyfreithlon fel y bo angen er mwyn cyflawni'r amcanion uchod.

3) Fel y gymdeithas wenyna genedlaethol yng Nghymru, mae CGC yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth dwyieithog lle bynnag y bo'n ymarferol.

**5. Tîm Rheoli Cymdeithas Gwenynwyr Cymru**

1) Elusen yw CGC sy'n cael ei rheoli ar ran ei Haelodau gan Dîm Rheoli o Ymddiriedolwyr etholedig yn unol â'r Cyfansoddiad hwn fel ei dogfen lywodraethu. Diffinnir cyfansoddiad y Tîm Rheoli yng Nghymal 19 (Swyddogion ac Ymddiriedolwyr).

2) Mae CGC wedi rhoi pŵer i'r Tîm Rheoli hyrwyddo amcanion y gymdeithas drwy'r Cyfansoddiad hwn ac mae'r pwerau sydd gan yr Ymddiriedolwyr wedi'u cynnwys yng Nghymal 21 isod.

**6. Cyfarfodydd Cyffredinol**

1) Cyfarfodydd ffurfiol CGC yw Cyfarfodydd Cyffredinol

2) Mae dau fath o Gyfarfodydd Cyffredinol – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir unwaith y flwyddyn a Chyfarfod Cyffredinol Arbennig a elwir i drafod/ i gytuno ar bynciau penodol.

3) Gall unrhyw ddosbarth o aelodaeth fynychu unrhyw Gyfarfod Cyffredinol, ond yr unig rai a gaiff bleidleisio yw'r Ymddiriedolwyr, Cynrychiolwyr yr Aelod-Gymdeithasau a Chynrychiolydd yr Aelodau Unigol. Mae croeso i aelodau eraill fynychu fel gwylwyr.

**7. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

1) Dylid cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) cyn pen chwe mis ar ôl diwedd blwyddyn ariannol CGC. Caiff Aelod-Gymdeithasau gyflwyno cynigion i'w hystyried gan y CCB. Dylid anfon cynigion o'r fath at yr Ysgrifennydd Cyffredinol o leiaf chwe wythnos cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd cofnodion y CCB ar gael yn gyhoeddus drwy wefan CGC.

2) Bydd y busnes ym mhob CCB yn cynnwys:

a) Derbyn a mabwysiadu'r adroddiad blynyddol, cyfrifon a mantolen CGC.

b) Ethol Ymddiriedolwyr CGC (gweler Cymalau 19 a 20)

c) Ethol Llywydd ac Is-Lywyddion CGC. Etholir Llywyddion ac Is-Lywyddion am gyfnod o dair blynedd, y gellir ei adnewyddu yn achos Is-Lywyddion

ch) Cymeradwyo swm ffioedd aelodaeth, ffioedd y pen a ffioedd aelodaeth

d) Cadarnhau rhoi Aelodaeth Anrhydeddus am Oes

dd) Terfynu aelodaeth Aelod-Gymdeithas neu Aelod Unigol

e) Adolygu cyfeiriad strategol CGC

f) Trafod unrhyw fusnes arall sy'n briodol mewn CCB fel y gwêl Cadeirydd y cyfarfod yn dda.

## 8. Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig

1) Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig yw'r enw ar bob Cyfarfod Cyffredinol arall heblaw am Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol

2) Gall yr Ymddiriedolwyr alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar unrhyw adeg. Yr unig reswm dros alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yw er mwyn trafod pynciau penodol a/neu gytuno arnynt, a rhaid rhoi manylion y rhain yn yr agenda.

3) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig os daw cais ysgrifenedig iddynt wneud hynny gyda chefnogaeth dim llai na phedair Aelod-Gymdeithas. Rhaid i'r cais nodi natur y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r Ymddiriedolwyr yn methu cynnal y cyfarfod cyn pen chwe wythnos ar ôl cyflwyno'r cais, caiff yr aelodau fynd ati i alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ond wrth wneud hyn rhaid iddynt gydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad hwn.

## 9. Cyngor CGC

1) Cyngor CGC yw'r corff sy'n cynrychioli barn aelodau'r Aelod-Gymdeithasau a'r Aelodau Unigol ac sy'n cynghori'r Tîm Rheoli'n briodol.

Mae'r Cyngor yn:

a) Gosod cyfeiriad strategol cyffredinol CGC

b) Yn trafod materion cenedlaethol a materion Aelod-Gymdeithasau ac yn

c) Chwarae rhan lawn yng Nghyfarfodydd Cyffredinol CGC – gweler Cymalau 7/8 am y manylion.

2) Bydd yr agenda ar gyfer Cyfarfod y Cyngor yn cynnwys eitemau a gynigiwyd gan yr Ymddiriedolwyr, Swyddogion CGC ac eitemau y gofynnodd Aelod-Gymdeithas(au) a/neu Aelodau Unigol amdanynt.

3) Yn ogystal mae'n fforwm ar gyfer cydlynu gwaith CGC a'i Haelod-Gymdeithasau er mwyn cyflawni Amcanion yr Elusen.

**10. Cyfarfodydd y Cyngor**

1) Mae Cyfarfodydd y Cyngor yn fforwm llai ffurfiol na Chyfarfodydd Cyffredinol ar gyfer trafod, dadlau, cynllunio, ymgynghori a lledaenu gwybodaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn debygol o fod yn fwy hyblyg na rhai'r Cyfarfodydd Cyffredinol ffurfiol.

2) Yn ogystal â'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, bydd y Cyngor yn cwrdd fel y bo'r angen, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

3) Gelwir Cyfarfodydd y Cyngor naill ai gan yr Ymddiriedolwyr neu ar ôl cais ysgrifenedig gan o leiaf bedair Aelod-Gymdeithas ac fe'i cynhelir cyn pen 6 wythnos ar ôl derbyn cais o'r fath.

4) Fel arfer bydd busnes ffurfiol a gwneud penderfyniadau wedi'u cyfyngu i Gyfarfodydd Cyffredinol (gweler Cymalau 6-8) ond gellir codi materion brys sy'n gofyn am arweiniad gan y Cyngor ond i hysbysiad clir o 14 diwrnod gael ei roi cyn y cyfarfod a gafodd ei amserlennu.

5) Gall Aelodau nad ydynt yn pleidleisio heblaw am Gynrychiolwyr Cymdeithasau ddod i gyfarfodydd y Cyngor fel gwylwyr yn enwedig lle mae siaradwr neu sesiynau addysgol yn rhan o'r cyfarfod.

6) Bydd Tîm Rheoli'r Ymddiriedolwyr yn cadw at unrhyw benderfyniadau sy'n mynegi barn yr Aelod-Gymdeithasau yng Nghyfarfodydd y Cyngor os ydynt yn hyrwyddo amcanion CGC ac onid ydynt yn groes i ddyletswyddau cyfreithiol yr Ymddiriedolwyr.

**11. Rhybudd a diffiniad o gyfarfodydd**

1) Y rhybudd lleiaf sydd angen ei roi er mwyn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CGC yw deuddeg wythnos.

2) Y rhybudd lleiaf sydd angen ei roi er mwyn cynnal unrhyw Gyfarfod Cyffredinol neu Gyfarfod Cyngor CGC yw pedair wythnos o'r dyddiad y pennir i'r rhybudd gael ei roi.

3) Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol neu Gyfarfod y Cyngor gyda llai o rybudd, os cytunir ar hynny gan bob aelod sydd â hawl i fynychu ac i bleidleisio.

4) Rhaid i'r rhybudd nodi dyddiad, amser a lle'r cyfarfod a natur gyffredinol y busnes i'w drafod. Os mai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yw'r cyfarfod i fod, rhaid i'r rhybudd ddweud hynny.

5) Rhaid rhoi'r rhybudd i'r bob Aelod-Gymdeithas, i bob Aelod Unigol ac i'r Ymddiriedolwyr.

6) Yn yr achos hwn, o ran holl gyfarfodydd CGC, mae’r ymadrodd “cyfarfod” yn cynnwys:-

a). cyfarfod wyneb yn wyneb

b). cynhadledd fideo, cyfleuster fideo dros y rhyngrwyd neu ddull electronig tebyg sy'n caniatáu cymryd rhan yn weledol a chlywedol ar y pryd, a

c). cynadledda dros y ffôn, neu,

ch). unrhyw gyfuniad o'r uchod ond bod pawb yn cytuno bod y math o gyfarfod yn briodol i'r materion i'w trafod a'u bod yn gyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol.

Er y cytunir ar ddewisiadau eraill, dylid cofio pwysigrwydd cyfarfodydd corfforol o ran meithrin perthnasoedd rhwng CGC a'i aelod-gymdeithasau a'u cynrychiolwyr. Am hynny, lle y bo'n ymarferol, dylai o leiaf un cyfarfod y flwyddyn fod yn un wyneb yn wyneb.

**12. Cworwm**

1) Ni thrafodir unrhyw fusnes mewn unrhyw Gyfarfod Cyffredinol neu Gyfarfod y Cyngor onid oes cworwm yn bresennol.

2) Cworwm yw o leiaf un cynrychiolydd o naw o'r 19 Aelod-Gymdeithas neu'r rhif cyfan agosaf i 50%, wedi'i dalgrynnu i lawr, o nifer yr aelod-gymdeithasau

3) Os:

a). nad yw cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr o'r amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod; neu

b). os, yn ystod cyfarfod, bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol, rhaid gohirio'r cyfarfod i'r adeg a'r lleoliad y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu pennu.

4) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr ailgynnull y cyfarfod a rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd am y cyfarfod sydd wedi'i ailgynnull gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

**13. Cadeirydd**

1) Bydd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y person a etholwyd yn Gadeirydd CGC neu, yn ei absenoldeb, gan Is-Gadeirydd CGC.

2) Os nad yw ef neu hi'n bresennol cyn pen pymtheg munud o'r amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod, bydd Ymddiriedolwr a enwebir gan yr Ymddiriedolwyr yn cadeirio'r cyfarfod.

3) Os mai un Ymddiriedolwr yn unig sy'n bresennol ac sy'n barod i weithredu, bydd ef neu hi'n cadeirio'r cyfarfod.

**14. Gohiriadau**

1) Caiff yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod benderfynu y bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio.

2) Rhaid i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod benderfynu ar ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a gaiff ei ailgynnull onid yw'r manylion hynny wedi'u nodi yn y penderfyniad.

3) Os caiff cyfarfod ei ohirio gan benderfyniad yr aelodau am fwy na saith niwrnod, rhoddir rhybudd o saith niwrnod clir o leiaf o'r cyfarfod sydd i'w ailgynnull gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

**15. Pleidleisiau**

1) Bydd gan bob Aelod-Gymdeithas CGC gyfanswm o ddwy bleidlais i'w bwrw gan y cynrychiolwyr a enwebwyd ganddynt mewn unrhyw gyfarfod o CGC (gweler Cymal 16.1 isod)

2) Bydd gan gynrychiolydd yr Aelodau Unigol (fel y'i disgrifir yn 16.2 isod) un bleidlais mewn unrhyw gyfarfod o CGC.

3) Os yw'r pleidleisiau'n gyfartal bydd gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod bleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall a all fod ganddo neu ganddi.

4) Mae'r Ymddiriedolwyr yn aelodau o Gyfarfodydd Cyngor a Chyffredinol CGC, a chânt bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath drwy eu hawl eu hunain, ond ni chânt bleidleisio ar gynigion a gyflwynir gan y Tîm Rheoli

5) Ni fydd pleidlais gan y Llywydd na'r Is-Lywyddion chwaith.

**16. Cynrychiolwyr Aelod-Gymdeithasau a Chynrychiolwyr Aelodau Unigol**

1) Caiff unrhyw Aelod-Gymdeithas o CGC enwebu unrhyw 2 o'i haelodau, dros 18 oed i fod yn gynrychiolwyr ac i fwrw pleidleisiau ar ei rhan mewn unrhyw Gyfarfod o CGC.

2) Felly hefyd, gall Aelodau Unigol drefnu ar y cyd i enwebu cynrychiolydd i gynrychioli eu barn a bwrw un bleidlais mewn unrhyw Gyfarfod o CGC.

3) Rhaid i Ysgrifennydd yr Aelod-Gymdeithas roi hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd Cyffredinol CGC am enwau'r cynrychiolwyr. Ni fydd gan yr enwebeion hawl i gynrychioli eu Haelodau mewn unrhyw gyfarfod onid yw CGC wedi derbyn yr hysbysiad. Caiff yr enwebeion barhau i gynrychioli eu Haelodau tan i CGC dderbyn hysbysiad fel arall.

4) Felly hefyd caniateir cyfnewid cynrychiolydd ond rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol gael gwybod y manylion yn ysgrifenedig ymlaen llaw cyn unrhyw gyfarfod.

5) Bydd unrhyw hysbysiad a roddir i CGC yn dystiolaeth derfynol fod gan yr enwebai hawl i gynrychioli ei Aelodau neu fod ei awdurdod neu'i hawdurdod wedi cael ei ddirymu. Ni fydd gofyn i CGC ystyried a yw'r enwebai wedi'i benodi'n briodol gan yr Aelodaeth.

**17. Dosbarthiadau Aelodaeth**

1) Bydd Aelodaeth CGC yn agored i:

a) a) **<u>Aelod-Gymdeithas</u>**. Caiff unrhyw Grŵp o wenynwyr lleol, y mae mwyafrif ei aelodau'n byw yng Nghymru ymgeisio am fod yn aelod o CGC. Bydd pob Cymdeithas sy'n ymgeisio am aelodaeth yn gwneud cais

ysgrifenedig i Ysgrifennydd Cyffredinol CGC ac yn darparu copi o'i dogfen lywodraethu. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cael gwybod am fanylion unrhyw newidiadau dilynol i ddogfen lywodraethu Aelod-Gymdeithas cyn gynted ag y mae'r Aelod-Gymdeithas honno'n eu cymeradwyo. Bydd pob Aelod-Gymdeithas yn talu'n flynyddol, ymlaen llaw, ac erbyn 31 Mawrth ym mhob blwyddyn, y cyfryw ffi y pen, yn seiliedig ar ei haelodaeth ar ddiwedd blwyddyn ariannol CGC yn union cyn y dyddiad talu, yn ôl sut caiff ei bennu mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd y term "aelodaeth" yn cynnwys yr holl aelodau gwenyna, aelodau Gwlad, aelodau cyffredin, oes ac anrhydeddus wrth ba bynnag enw y byddant yn cael eu hadnabod, ond nid oes angen i hyn gynnwys aelodau Cyswllt neu Leol os nad yw'r personau hyn yn wenynwyr ac nid oes ganddynt bleidlais yn nhrafodion yr Aelod-Gymdeithas o dan sylw.

b) **Aelod Anuniongyrchol**. Bydd pob Aelod sy'n cadw gwenyn o o Aelod-Gymdeithas CGC fel y'i diffiniwyd yng Nghymal 17.1.a a'i gytuno gan Gyngor CGC yn Aelodau Anuniongyrchol o CGC.

c) **Aelod Unigol** Caiff unrhyw berson dros 18 oed wneud cais i fod yn Aelod Unigol o CGC. Dylid gwneud cais ysgrifenedig i ddod yn Aelod Unigol o CGC i'r Ysgrifennydd Cyffredinol neu i swyddog a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i ymgymryd â'r dasg o dderbyn ceisiadau ac ymdrin â nhw. Bydd Aelod Unigol yn talu ei danysgrifiad yn uniongyrchol i Drysorydd CGC erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

d) **Aelod Anrhydeddus am Oes** i'r personau hynny y bydd CGC yn dymuno rhoi'r anrhydedd o Aelodaeth Anrhydeddus am Oes heb danysgrifiad. Caiff Aelod-Gymdeithas anfon at yr Ysgrifennydd Cyffredinol enwebiad unigolyn i'w benodi'n Aelod Anrhydeddus am Oes a bydd y Tîm Rheoli'n ystyried yr enwebiad a chadarnheir eu penderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Caiff yr Ymddiriedolwyr lunio canllawiau at ddefnydd Aelod-Gymdeithasau o ran penderfynu ar ba sail y dylent benderfynu enwebu.

e) **Noddwr** a gaiff ei wahodd i gynrychioli'r Gymdeithas yn anffurfiol, ac a fydd, lle bydd cyfleoedd yn codi, yn hybu amcanion y Gymdeithas. Caiff Aelod-Gymdeithas anfon at yr Ysgrifennydd Cyffredinol i enwebu unigolyn i'w benodi fel Noddwr a bydd y Tîm Rheoli'n ystyried yr enwebiad a'u penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd y Noddwr yn gwasanaethu gyhyd ag y mae'n dymuno neu'n gallu gwneud hynny.

f) Unrhyw gategorïau eraill o aelodaeth (na fydd ganddynt hawliau pleidleisio cysylltiedig mewn cyfarfodydd Cyffredinol neu gyfarfodydd y Cyngor) a ddiffinnir gan yr Ymddiriedolwyr.

g) Anogir pobl ifanc o dan 18 oed i ymuno â chymdeithas leol (yn hytrach nag â CGC yn uniongyrchol) fel y gallant gael addysg a chymorth gan

aelodau eraill y gymdeithas honno. Bydd ffioedd aelodaeth ar gyfer yr aelodau hyn ar gyfradd ostyngol arbennig.

2) Gwrthod ceisiadau am Aelodaeth

a) Yr unig adeg y gall yr Ymddiriedolwyr wrthod cais am aelodaeth yw, gan ymddwyn yn rhesymol ac yn briodol, os byddant o'r farn ei bod er budd CGC i wrthod y cais.

b) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y rhesymau dros wrthod y cais cyn pen un diwrnod ar hugain ar ôl gwneud y penderfyniad.

c) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig y gall yr ymgeisydd ei wneud am y penderfyniad. Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd am benderfyniad yr Ymddiriedolwyr ar ôl unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig ond bydd yn derfynol.

3) Nid oes modd trosglwyddo Aelodaeth i unrhyw un arall.

4) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofrestr o enwau a chyfeiriadau Ysgrifenyddion yr Aelod-Gymdeithasau, yr Ymddiriedolwyr, yr Aelodau Anuniongyrchol ac Unigol yn unol â Pholisi Gwarchod Data CGC. Manylion Ysgrifenedig yr Aelod-Gymdeithasau'n unig a roddir os gwneir cais ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

**18. Terfynu Aelodaeth**

Terfynir Aelodaeth os:

1) Bydd yr aelod yn marw neu, os yw'n gymdeithas, bydd yn peidio â bod.

2) Bydd yr aelod/y gymdeithas yn ymddiswyddo drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig at Ysgrifennydd Cyffredinol CGC.

3) Bydd unrhyw swm sy'n ddyledus gan yr aelod/y gymdeithas i CGC heb ei dalu'n llawn cyn pen tri mis o'r adeg pan yw'n ddyledus.

4) Tynnir yr aelod/y gymdeithas o'r rhestr aelodaeth gan benderfyniad yr Ymddiriedolwyr ei bod er budd CGC i'r aelodaeth gael ei therfynu. Yr unig reswm dros benderfyniad i dynnu aelod/cymdeithas o'r rhestr aelodaeth yw os:

a) Bydd yr aelod/y gymdeithas wedi cael o leiaf un diwrnod ar hugain o rybudd ysgrifenedig am gyfarfod yr Ymddiriedolwyr lle cynigir y penderfyniad a'r rhesymau pam y'i cynigir;

b) Bydd yr aelod/y gymdeithas, neu os yw'r aelod/y gymdeithas yn dewis, cynrychiolydd yr aelod/y gymdeithas (nad oes rhaid iddo/iddi fod yn aelod o CGC) wedi cael caniatâd i gyflwyno achos i'r cyfarfod.

**19. Ymddiriedolwyr**

1) Bydd CGC a'i heiddo'n cael eu rheoli a'u gweinyddu gan Dîm Rheoli sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwyr a etholwyd yn unol â'r cyfansoddiad hwn ac yn y cyfansoddiad hwn cânt eu galw gyda'i gilydd yn 'yr Ymddiriedolwyr'.

2) Bydd CGC yn ethol Tîm Rheoli o Ymddiriedolwyr mewn Cyfarfod Cyffredinol i lenwi'r rolau canlynol:

- a) Cadeirydd,
- b) Is-Gadeirydd
- c) Ysgrifennydd Cyffredinol,
- ch) Trysorydd.
- d) O leiaf 2 ond dim mwy na 6 Ymddiriedolwr arall

3) Rhaid i Ymddiriedolwr fod yn Aelod Anuniongyrchol neu'n Aelod Unigol o CGC a rhaid ei fod/bod dros 18 oed.

4) Ni chaiff unrhyw un ei benodi'n Ymddiriedolwr petai ef neu hi'n cael ei ddiarddel o dan ddarpariaethau Cymal 18.

5) Ni fydd nifer yr Ymddiriedolwyr (a restrir yng Nghymal 19.2) uchod) yn llai na chwech ond ni fydd yn fwy na 10.

6) Ni chaiff Ymddiriedolwr benodi unrhyw un i weithredu ar ei ran/ei rhan yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

**20. Penodi Ymddiriedolwyr, Llywydd ac Is-Lywyddion CGC**

1) Bydd CGC mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ethol yr Ymddiriedolwyr.

2) Er mwyn llenwi lle gwag tan y Cyfarfod Cyffredinol nesaf, caiff yr Ymddiriedolwyr benodi unrhyw berson cymwys sy'n barod i weithredu fel Ymddiriedolwr yn amodol ar is-gymal 6) b) y cymal hwn.

3) Mae peth dilyniant yn y Tîm Rheoli yn hanfodol i CGC. Felly, fel arfer, etholir Ymddiriedolwr am gyfnod o 3 blynedd ac er mwyn bod dilyniant profiad y bwriad yw na ddylai mwy na 3 neu 4 Ymddiriedolwr ymddeol ar unrhyw un adeg.

4) Bydd pob un o'r Ymddiriedolwyr yn ymddeol o ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 3 blynedd ar ôl ei benodiad/ei phenodiad ond bydd yn gymwys i'w ailethol/hailethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwnnw.

5) Ni fydd yr Ymddiriedolwr yn gwasanaethu am fwy na 3 blynedd o'r bron yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol. Ar ddiwedd eu cyfnod yn swyddogion, dylai etholiad newydd ddigwydd am y swyddi hyn (e.e. tan y gellir cynnal etholiadau newydd yn unig y mae'r Is-Gadeirydd yn dirprwyo dros y Cadeirydd). Fodd bynnag, gellir rhoi'r gofynion hyn o'r neilltu er mwyn sicrhau bod digon o Ymddiriedolwyr ar y Tîm Rheoli.

6) Ni chaiff neb ei ethol yn Ymddiriedolwr mewn unrhyw Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol oni bai bod CGC yn derbyn hysbysiad cyn y cyfarfod:

a) sydd wedi'i lofnodi gan 2 gynrychiolydd, pob un yn cynrychioli Aelod-Gymdeithas wahanol y mae ganddynt hawl i bleidleisio yn y cyfarfod;

b) sy'n nodi bwriad y cynrychiolydd i gynnig penodi person yn Ymddiriedolwr;

c) sydd wedi'i lofnodi gan y person sy'n mynd i gael ei gynnig er mwyn dangos ei barodrwydd/pharodrwydd i gael ei benodi/phenodi.

7) Etholir Llywydd CGC mewn Cyfarfod Cyffredinol a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o 3 blynedd. Ni chaiff ef neu hi sefyll i gael ei ailethol/hailethol yn Llywydd. Gellir enwebu Ymddiriedolwr etholedig am swydd y Llywydd ac os caiff ei ethol caiff barhau i fod yn Ymddiriedolwr. Bydd y ddau Is-Lywydd CGC yn cael eu hethol am gyfnod o 3 blynedd a gallant gael eu hailethol yn Is-Lywydd ar ddiwedd eu cyfnod 3 blynedd.

**21. Pwerau'r Ymddiriedolwyr**

1) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr, gyda'i gilydd fel Tîm Rheoli, reoli busnes CGC ac mae ganddynt y pwerau canlynol er mwyn hyrwyddo'r amcanion (ond nid at unrhyw ddiben arall):

a) Codi arian. O wneud hynny, ni ddylai'r Ymddiriedolwyr ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu trethadwy a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw reoliadau statudol perthnasol;

b) Prynu, cymryd ar brydles neu'n gyfnewid, llogi neu gaffael unrhyw eiddo fel arall a'i gynnal a'i gadw a'i baratoi at gael ei ddefnyddio.

c) Gwerthu, rhoi ar brydles neu gael gwared fel arall ar yr holl eiddo sy'n perthyn i CGC neu ar ran ohono. Wrth roi'r pŵer hwn ar waith, rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio fel sy'n briodol ag adrannau 117 - 122 Deddf Elusennau 2011;

ch) Er gwaethaf unrhyw un o'r pwerau yn y cymal hwn, rhaid i unrhyw weithredu sy'n ymwneud â thir neu ag eiddo gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan fwyafrif syml mewn Cyfarfod Cyffredinol.

d) Cydweithio ag elusennau eraill, cyrff gwirfoddol ac awdurdodau statudol a chyfnewid gwybodaeth a chyngor â nhw;

dd) Sefydlu neu gefnogi unrhyw ymddiriedolaethau, cymdeithasau neu sefydliadau elusennol a ffurfir at unrhyw un o'r dibenion elusennol sydd wedi'u cynnwys yn yr amcanion;

e) Caffael, uno ag unrhyw drefniant partneriaeth neu fenter ar y cyd neu eu gwneud ag unrhyw elusen arall a ffurfir ar gyfer unrhyw un o'r amcanion;

f) Rhoi incwm i'r naill ochr wrth gefn ar gyfer gwariant i'r dyfodol ond yn unol â pholisi ysgrifenedig am gronfeydd wrth gefn yn unig.

ff) Caffael unrhyw nwyddau a gwasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud gwaith CGC a thalu amdanynt.

g) Agor a gweithredu cyfrifon banc a chyfrifon eraill y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn angenrheidiol a buddsoddi arian a dirprwyo'r gwaith o reoli'r arian yn yr un modd ac yn ddibynnol ar yr un amodau ag y mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn caniatáu i Ymddiriedolwyr eu dilyn.

ng) Gwneud pob peth arall cyfreithlon fel y bo angen er mwyn cyflawni'r amcanion.

2) Ni fydd newid y cyfansoddiad hwn neu unrhyw benderfyniad arbennig ag effaith ôl-weithredol er mwyn dirymu unrhyw weithred flaenorol gan yr Ymddiriedolwyr.

(3) Caiff unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle mae cworwm yn bresennol ar yr adeg y gwneir y penderfyniad perthnasol ddefnyddio'r holl bwerau sydd gan yr Ymddiriedolwyr i'w defnyddio.

**22. Diarddel a Symud Ymddiriedolwyr**

Bydd Ymddiriedolwr yn gorffen dal swydd os yw e neu hi:

1) Wedi'i ddiarddel/diarddel rhag bod yn Ymddiriedolwr yn rhinwedd adrannau 178 a 179 Deddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad neu newid i'r ddarpariaeth honno);

2) Yn peidio â bod yn aelod o CGC;

3) Ym marn ysgrifenedig, a roddir i CGC, ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n trin y person hwnnw, wedi mynd yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol i fod yn Ymddiriedolwr ac y gall fod felly am dros dri mis;

4) Yn ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr drwy hysbysu CGC (ond dim ond os bydd o leiaf chwe Ymddiriedolwr yn dal yn eu swydd pan fydd yr hysbysiad ymddiswyddo'n dod i rym h.y. mae angen i rywun arall fod yn y swydd cyn y caiff yr Ymddiriedolwr gamu o'r neilltu)

5) Yn absennol heb ganiatâd yr Ymddiriedolwyr o bob un o'u cyfarfodydd a gynhaliwyd mewn cyfnod o chwe mis o'r bron ac mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu bod ei swydd ef neu hi'n cael ei gwneud yn wag.

**23. Gweithrediadau'r Ymddiriedolwyr**

1) Caiff yr Ymddiriedolwyr reoleiddio eu gweithrediadau fel y gwelant yn dda, yn amodol ar ddarpariaeth y cyfansoddiad hwn.

2) Caiff unrhyw Ymddiriedolwr ofyn i'r Ysgrifennydd Cyffredinol alw cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr.

3) Rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol alw cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr os bydd Ymddiriedolwr yn gofyn iddo/iddi wneud hynny.

4) Rhaid i gwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod gael eu penderfynu gyda mwyafrif pleidleisiau.

5) Lle mae'r pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

6) Ni chaiff cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr wneud penderfyniad oni bai bod cworwm yn bresennol ar yr adeg y gwneir y penderfyniad.

7) Bydd y cworwm yn bedwar neu'n nifer mwy fel y caiff yr Ymddiriedolwyr ei benderfynu o dro i dro.

8) Ni fydd Ymddiriedolwr yn cael ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan wneir unrhyw benderfyniad am fater nad oes hawl gan yr Ymddiriedolwr bleidleisio arno.

9) Os yw nifer yr Ymddiriedolwyr yn llai na'r nifer a bennwyd fel cworwm, er mwyn llenwi swyddi gwag neu alw Cyfarfod Cyffredinol yn unig y gall yr Ymddiriedolwyr neu'r Ymddiriedolwr sy'n parhau weithredu.

10) Bydd y person a etholwyd yn Gadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

11) Os yw'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn amharod i lywyddu neu os nad yw'n bresennol cyn pen deg munud wedi'r amser a bennwyd ar gyfer y cyfarfod, caiff yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol benodi un o'u nifer i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

12) Ni fydd gan y sawl a benodwyd i gadeirio cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unrhyw swyddogaethau neu rymoedd heblaw am y rhai y mae'r cyfansoddiad hwn yn eu rhoi iddo iddi neu'r rhai a ddirprwywyd yn ysgrifenedig iddo neu iddi gan yr Ymddiriedolwyr.

13) Yn y cymal hwn, o ran cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymadrodd "cyfarfod" yn cynnwys:-

a). cyfarfod wyneb yn wyneb

b). cynhadledd fideo, cyfleuster fideo rhyngrwyd neu ddull electronig tebyg sy'n galluogi'r cyfranogwyr i gymryd rhan yn weledol ac yn glywedol ar yr un pryd, a

c). chynadleddau ffôn, neu,

ch). unrhyw gyfuniad o'r uchod

ond bod y tîm yn cytuno'n llwyr fod y math o gyfarfod yn briodol i'r materion i'w trafod a'i fod yn gyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol. Fodd bynnag, bydd y Tîm Rheoli'n cynnal o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb y flwyddyn.

14) Bydd penderfyniad ysgrifenedig a lofnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i gyd sydd â hawl i gael hysbysiad am gyfarfod Ymddiriedolwyr neu am bwyllgor Ymddiriedolwyr ac i bleidleisio ar y penderfyniad yr un mor ddilys ac effeithiol fel

petai wedi'i basio mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr neu (yn ôl yr achos) mewn pwyllgor o Ymddiriedolwyr a gafodd ei gynnull a'i gynnal yn briodol.

15) Gall y penderfyniad ysgrifenedig gynnwys nifer o ddogfennau sy'n cynnwys testun y penderfyniad ar ffurf debyg a phob un wedi'i harwyddo gan un neu ragor o Ymddiriedolwyr.

**24. Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthdaro Teyrngarwch**

1) Rhaid i Ymddiriedolwr CGC:

a) Ddatgan natur a maint unrhyw ddiddordeb, uniongyrchol neu anuniongyrchol sydd ganddo neu ganddi neu berson cysylltiedig mewn gweithrediad neu drefniant arfaethedig gyda CGC neu mewn unrhyw weithrediad neu drefniant y mae CGC wedi'i wneud na chafodd ei ddatgan cyn hyn; a

b) Ei wneud/ei gwneud ei hun yn absennol o unrhyw drafodaethau gan Ymddiriedolwyr CGC lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro'n codi rhwng ei ddyletswydd/dyletswydd i weithredu er budd CGC yn unig ac unrhyw ddiddordeb personol (gan gynnwys unrhyw ddiddordeb ariannol personol ond nid yn gyfyngedig i hynny).

c) Nid yw unrhyw Ymddiriedolwr CGC sy'n ei wneud/gwneud ei hun yn absennol o unrhyw drafodaethau'n unol â'r cymal hwn yn cael pleidleisio neu'n cael ei gyfrif yn rhan o'r cworwm mewn unrhyw benderfyniad gan Ymddiriedolwyr CGC ar y mater.

2) At hynny, wrth ddod yn Ymddiriedolwr CGC, mae gan bob Ymddiriedolwr bleidlais yn ei rinwedd ei hun mewn unrhyw Gyfarfod y Cyngor neu Gyfarfod Cyffredinol, y gall ei defnyddio er lles cyffredinol CGC a'i haelodau yn hytrach na gweithredu fel cynrychiolydd ei Aelod-Gymdeithas ei hun neu unrhyw Aelod-Gymdeithas arall yn ystod cyfnod ei benodiad.

3) Ni chaiff Ymddiriedolwyr bleidleisio ar gynigion a gyflwynir gan y Tîm Rheoli mewn unrhyw Gyfarfod o’r Cyngor neu Gyfarfod Cyffredinol.

**25. Darpariaethau Amodol/Afreoleidd-dra wrth Weithredu**

1) Yn amodol ar is-gymal 2) y cymal hwn, bydd pob penderfyniad neu weithred Ymddiriedolwyr CGC, cyfarfod Ymddiriedolwyr CGC neu bwyllgor Ymddiriedolwyr CGC, yn ddilys er bod Ymddiriedolwr CGC wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais:

a) Sydd wedi'i ddiarddel rhag dal swydd neu

b) A oedd wedi ymddeol yn flaenorol neu yr oedd rhaid iddo adael ei swydd gan y cyfansoddiad hwn neu

c) Nad oedd ganddo hawl i bleidleisio ar y mater, naill ai oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

Os, heb gyfrif pleidlais yr Ymddiriedolwr CGC hwnnw a bod yr Ymddiriedolwr CGC wedi'i gynnwys yn y cworwm, mae'r penderfyniad neu'r weithred wedi'i wneud gan fwyafrif Ymddiriedolwyr CGC mewn cyfarfod â chworwm.

2) Nid yw is-gymal 1) y cymal hwn yn caniatáu i Ymddiriedolwr CGC gadw unrhyw fantais a all ei gael gan benderfyniad gan Ymddiriedolwyr CGC neu gan bwyllgor o Ymddiriedolwyr CGC ond, oni bai am is-gymal 1), byddai'r penderfyniad wedi bod yn annilys, neu os nad yw Ymddiriedolwr CGC wedi cydymffurfio â Chymal 24 (Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthdaro Teyrngarwch).

3) Ni fydd unrhyw benderfyniad neu weithred gan

a) Yr Ymddiriedolwyr

b) Unrhyw bwyllgor yr Ymddiriedolwyr

c) CGC mewn Cyfarfod Cyffredinol

yn cael ei wneud yn annilys oherwydd methu hysbysu unrhyw Ymddiriedolwr neu aelod neu oherwydd diffyg gweithdrefnol yn y cyfarfod oni ellir dangos bod y methiant neu'r diffyg wedi gwneud drwg yn faterol i aelod neu fuddiolwyr CGC.

**26. Dirprwyo**

1) Caiff yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo unrhyw rai o'u pwerau neu eu swyddogaethau i bwyllgor i ddau neu ragor o Ymddiriedolwyr ond rhaid i amodau unrhyw ddirprwyaeth o'r fath gael eu nodi yn y cofnodion.

2) Hefyd, caiff yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo swyddogaethau atodol i unigolion nad ydynt yn Ymddiriedolwyr. Byddai’r Swyddogion nad ydynt yn Ymddiriedolwyr yn cynnwys Gwefeistr, Golygydd, Ysgrifennydd Aelodaeth. Byddai gan bob rôl Ymddiriedolwr enwebedig y byddai’r swyddog yn gweithio gydag ef neu hi ac a fyddai’n adrodd i’r Tîm Rheoli.

3) Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi amodau wrth ddirprwyo, gan gynnwys yr amodau bod:

a) Y pwerau perthnasol i'w defnyddio gan y pwyllgor y maent yn dirprwyo iddo'n unig;

b) Ni ellir gwneud unrhyw wariant ar ran CGC heblaw am yn unol â chyllideb y cytunwyd arni'n flaenorol gyda'r Ymddiriedolwyr.

4) Caiff yr Ymddiriedolwyr ddirymu neu newid dirprwyaeth.

5) Lle ffurfir pwyllgor i gynnwys Ymddiriedolwyr ac aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr, neu pan mae rôl wedi’i dirprwyo i Swyddog nad yw’n Ymddiriedolwr, mae'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd yn aros gyda’r Ymddiriedolwyr ac ni ddylid eu dirprwyo i'r aelodau eraill yn unigol.

6) Rhaid adrodd yn llawn ac yn brydlon am holl weithredoedd a thrafodion unrhyw bwyllgorau i'r Ymddiriedolwyr neu i fuddiolwyr CGC.

**27. Cofnodion**

Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofnodion:

1). o holl benodiadau Ymddiriedolwyr a Swyddogion wneir gan yr Ymddiriedolwyr;

2). o'r holl drafodion yng Nghyfarfodydd Cyngor a Chyffredinol CGC gan gynnwys:

a). enwau'r Ymddiriedolwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod;

b). y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod; a

c). lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau

3). Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr a phwyllgorau'r Ymddiriedolwyr gan gynnwys:

a). enwau'r Ymddiriedolwyr a oedd yn bresennol yn y cyfarfod;

b). y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod; a

c). lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau

**28. Cyfrifon, Adroddiad Blynyddol, Datganiad Blynyddol**

1) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â'u goblygiadau o dan Ddeddf Elusennau 2011 o ran:

a). cadw cyfrifon ar gyfer CGC;

b). paratoi datganiadau cyfrifon blynyddol ar gyfer CGC;

c). trosglwyddo datganiadau cyfrifon i'r Comisiwn;

ch). paratoi Adroddiad Blynyddol a'i drosglwyddo i'r Comisiwn Elusennau;

2) Rhaid i gyfrifon gael eu paratoi yn unol â darpariaethau unrhyw Ddatganiad o Arferion a Argymhellir a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, oni bai bod gofyn i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon yn unol â darpariaethau Datganiad o'r fath a baratowyd gan gorff arall.

3) Bydd y cyfrifon a'r fantolen yn cael eu harchwilio a'u llofnodi gan berson sy'n annibynnol ar yr Ymddiriedolwyr cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CGC. Felly hefyd, bydd y cyfrifon a'r fantolen yn cael eu harchwilio a'u llofnodi gan berson sy'n annibynnol ar yr Ymddiriedolwyr os yw'r Trysorydd yn newid ar unrhyw adeg heblaw am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol CGC.

4) Bydd yr holl arian parod yn cael ei dalu'n brydlon i gyfrif banc a bydd pob cyfrif banc â'r enw Welsh Beekeepers' Association, Cymdeithas Gwenynwyr Cymru. Bydd sieciau'n cael eu llofnodi gan unrhyw ddau Ymddiriedolwr, y dylai un ohonynt fod yn un o'r canlynol – Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd Cyffredinol.

**29. Manylion a Gofrestrwyd**

Rhaid i'r Ymddiriedolwyr roi gwybod yn brydlon i'r Comisiwn am unrhyw newidiadau i gofnod CGC ar Gofrestr Ganolog yr Elusennau.

**30. Eiddo**

1) Caiff yr Ymddiriedolwyr benodi dim llai na thri pherson neu fanc neu gorfforaeth arall sydd ag awdurdod cyfreithiol i fod yn ymddiriedolwr dal i ddal eiddo gwirioneddol a phersonol, stociau, cyfrannau, gwarantau ac arian CGC ac unrhyw ymddiriedolaeth wedi'i rheoli'n gysylltiedig â hynny fel ymddiriedolwyr dal i weithredu yn ôl cyfarwyddiadau'r Ymddiriedolwyr.

2) Rhaid i amodau penodi unrhyw Ymddiriedolwyr dal ddarparu mai yn unol â chyfarwyddyd cyfreithiol yr Ymddiriedolwyr yn unig y gallant weithredu ac os gwnânt hynny na fyddant yn atebol am weithredoedd a diffygdaliadau'r Ymddiriedolwyr neu aelodau CGC.

3) Caiff yr Ymddiriedolwyr ddirymu'r Ymddiriedolwyr dal ar unrhyw adeg.

**31. Atgyweirio ac Yswiriant**

Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw holl asedau CGC mewn cyflwr da a'u hyswirio i'w gwerth llawn yn erbyn tân a risgiau arferol eraill. Hefyd rhaid iddynt yswirio'n addas o ran atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr.

**32. Hysbysiadau**

1) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y cyfansoddiad hwn i'w roi i unrhyw berson neu gan unrhyw berson fod:

a). yn ysgrifenedig; neu

b). wedi'i roi gan ddefnyddio gohebiaeth electronig

2) Caiff CGC roi unrhyw hysbysiad i aelod naill ai:

a). yn bersonol; neu

b). drwy ei anfon drwy'r post mewn amlen ragdal wedi'i chyfeirio at yr aelod yn ei gyfeiriad ef/ei chyfeiriad hi; neu

c). drwy ei adael yng nghyfeiriad yr aelod; neu

ch). drwy ei anfon drwy ddefnyddio gohebiaeth electronig i gyfeiriad yr aelod.

3) Ni fydd aelod nad yw'n cofrestru cyfeiriad gyda CGC neu sydd ond yn cofrestru cyfeiriad post nad yw yn y Deyrnas Unedig â hawl i dderbyn unrhyw hysbysiad gan CGC.

4) Tybir y bydd aelod sy'n bresennol ei hun mewn unrhyw gyfarfod o CGC wedi cael hysbysiad am y cyfarfod ac am bwrpas ei alw.

5). a). Bydd prawf fod amlen a oedd yn cynnwys hysbysiad wedi'i chyfeirio'n gywir, wedi'i rhagdalu a'i phostio'n dystiolaeth derfynol fod yr hysbysiad wedi'i roi.

b). Bydd prawf fod hysbysiad wedi'i gynnwys mewn gohebiaeth electronig a anfonwyd yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig yn dystiolaeth derfynol fod yr hysbysiad wedi'i roi.

c). Tybir bod hysbysiad wedi'i roi 48 awr ar ôl i'r amlen a oedd yn ei gynnwys gael ei phostio neu, yn achos gohebiaeth electronig, 48 awr ar ôl iddi gael ei hanfon.

**33. Rheolau**

1) O bryd i'w gilydd caiff yr Ymddiriedolwyr lunio rheolau ar gyfer cynnal busnes CGC.

2) Caiff y Rheolau reoleiddio'r materion canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:-

a). ffioedd mynediad, tanysgrifiadau ac unrhyw ffioedd neu daliadau i'w gwneud gan unrhyw un o'r dosbarthiadau aelodau;

b). y gweithdrefnau a’r ymddygiad mewn Cyfarfodydd Cyffredinol, Cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr os nad yw'r gweithdrefnau hynny wedi'u rheoleiddio gan y cyfansoddiad hwn, e.e. Cod Ymddygiad CGC;

3) Mae gan CGC mewn Cyfarfod Cyffredinol bŵer i ychwanegu, newid neu ddirymu unrhyw reolau.

4) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr fabwysiadu unrhyw ddulliau sy'n ddigonol yn eu barn nhw i ddod â'r rheolau at sylw aelodau CGC.

5) Bydd y rheolau'n rhwymo holl aelodau CGC. Ni fydd unrhyw reolau'n anghyson â'r cyfansoddiad hwn, ac ni fyddant yn effeithio neu'n diddymu unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys ynddo.

**34. Anghytuno neu Anghydfod**

Os bydd anghydfod yn codi rhwng unrhyw Ymddiriedolwr, Swyddog, Aelod a/neu Aelod-Gymdeithas CGC am ddilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth a wneir gan unrhyw Ymddiriedolwr, Swyddog, Aelod a/neu Aelod-Gymdeithas, ac os nad oes modd datrys yr anghydfod drwy gytuno, rhaid i'r partïon yn yr anghydfod geisio'n gyntaf ddatrys yr anghydfod gyda phob ewyllys da drwy gyfryngu cyn mynd i

gyfreitha.  Os oes gan unrhyw Aelod/Aelod-Gymdeithas gwyn am unrhyw Aelod/Aelod-Gymdeithas arall yna naill ai dylid cysylltu cyn gynted â phosibl â Llywydd CGC neu ag unrhyw Ymddiriedolwr CGC nad yw'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r mater o dan sylw er mwyn rhoi gweithdrefn anghydfod CGC ar waith.  Rhoddir manylion hyn ym Mholisi Anghydfod CGC.

**35. Dehongli**

Yn y cyfansoddiad hwn mae 'person cysylltiedig' yn golygu:

1). plentyn, rhiant, ŵyr, nain neu daid, brawd neu chwaer yr Ymddiriedolwr;

2). cymar neu bartner sifil yr Ymddiriedolwr neu unrhyw berson sy'n dod o fewn is-gymal 1) uchod;

3). person sy'n gwneud busnes mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolwr neu ag unrhyw berson sy'n dod o fewn is-gymal 1) neu 2) uchod;

4). sefydliad sydd wedi'i reoli:–

a). gan yr Ymddiriedolwr neu gan unrhyw berson cysylltiedig sy'n dod o fewn is-gymal 1), 2), neu 3) uchod; neu

b). gan ddau neu ragor o bobl sy'n dod o fewn is-gymal 4)a), o'u cymryd gyda'i gilydd

5). corffolaeth y mae gan –

a). Ymddiriedolwr CGC neu unrhyw berson cysylltiedig sy'n dod o fewn is-gymal 1) i 3) ddiddordeb sylweddol ynddi; neu

b). ddau neu ragor o bobl sy'n dod o fewn is-gymal 5)a) sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, â diddordeb sylweddol ynddi.

6) Mae Adrannau 350 – 352 Deddf Elusennau 2011 yn berthnasol at ddibenion dehongli'r amodau a ddefnyddir yn y cymal hwn.

Er eglurder, at ddibenion y cyfansoddiad hwn, byddai 'person cysylltiedig' yn cynnwys yr Aelod-Gymdeithas y mae'r Ymddiriedolwr neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr (fel y'i diffinnir yn is-gymalau 1) i 6) uchod) yn perthyn iddi.

**36. Defnyddio Incwm ac Eiddo**

1) Bydd incwm ac eiddo CGC yn cael eu defnyddio er mwyn hyrwyddo'r amcanion yn unig.

a) Mae gan Ymddiriedolwr CGC hawl i gael ei ddigolledu o eiddo CGC neu gellir talu allan o'r fath eiddo gostau rhesymol yr aeth ef neu hi iddynt wrth weithredu ar ran CGC.

b) Caiff Ymddiriedolwr CGC elwa o bris yswiriant atebolrwydd Ymddiriedolwyr a brynwyd ar gost CGC yn unol ag adran 189 Deddf Elusennau 2011, ac yn ddibynnol ar yr amodau ynddi.

2) Ni chaiff unrhyw incwm neu eiddo CGC ei dalu neu ei drosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy fonws buddran neu fel arall drwy fod yn elw i unrhyw aelod o CGC. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw hefyd yn Ymddiriedolwr rhag derbyn:

a). budd gan CGC wrth fod yn fuddiolwr CGC;

b). digolledìad rhesymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd i CGC.

**37. Buddiannau a Thaliadau i Ymddiriedolwyr CGC a Rhai Cysylltiedig**

1) Darpariaethau cyffredinol

Ni chaiff unrhyw Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig:-

a). brynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan CGC ar delerau ffafriol i'r rhai sy'n berthnasol i aelodau'r cyhoedd;

b). gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw ddiddordeb mewn tir i CGC;

c). cael ei gyflogi, neu dderbyn unrhyw dâl gan CGC;

ch). derbyn unrhyw fudd ariannol arall gan CGC; oni bai bod y taliad wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) y cymal hwn, neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu'r Comisiwn Elusennau ('y Comisiwn').

Yn y cymal hwn, mae 'budd ariannol' yn golygu budd, uniongyrchol neu anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

2) Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion Ymddiriedolwyr neu bersonau cysylltiedig

a) Caiff Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig dderbyn budd gan CGC fel buddiolwr CGC ond ei fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr CGC.

b) Caiff Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig wneud contract er mwyn cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau a gyflenwir mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, i'r CGC lle mae hynny wedi'i ganiatáu yn unol ag adran 185 Deddf Elusennau 2011 ac yn amodol ar yr amodau ynddi.

c) Yn amodol ar is-gymal (3) y cymal hwn caiff Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig ddarparu CGC â nwyddau nad ydynt wedi'u darparu mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir i CGC gan Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig.

ch) Caiff Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig gymryd rhan yng ngweithgareddau masnachu a chodi arian arferol CGC ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

3) Talu am ddarparu nwyddau'n unig – rheoliadau

Caiff CGC ac Ymddiriedolwyr CGC ddibynnu ar yr awdurdod a roddir gan is-gymal 2(c) y cymal hwn yn unig os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

a) Mae Ymddiriedolwyr eraill CGC yn fodlon ei bod er budd i CGC gytundebu â'r cyflenwr yn hytrach nag â rhywun nad yw'n Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw rhaid i Ymddiriedolwyr CGC gydbwyso mantais cytundebu ag Ymddiriedolwr CGC neu berson cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

b) Mae swm neu uchafswm y taliad ar gyfer y nwyddau wedi'i nodi mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng CGC a'r Ymddiriedolwr CGC neu'r person cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ('y cyflenwr') ac o dan y cytundeb y mae'r cyflenwr i fod i ddarparu'r nwyddau o dan sylw i CGC neu ar ran CGC.

c) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau'n fwy na'r hyn sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau am gyflenwi'r nwyddau o dan sylw.

ch) Mae'r cyflenwr yn absennol o'r rhan o unrhyw gyfarfod lle trafodir cynnig i wneud contract neu gytundeb ag ef neu hi o ran cyflenwi nwyddau i CGC.

d) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac ni ddylid ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm o Ymddiriedolwyr CGC yn bresennol yn y cyfarfod.

dd) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad wedi'i gofnodi gan Ymddiriedolwyr CGC yn y cofnodion.

e) Nid yw mwyafrif Ymddiriedolwyr CGC sydd â swyddi ar y pryd yn derbyn arian neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan Gymal 35.

4) Yn is-gymalau 2) a 3) y cymal hwn mae 'person cysylltiedig' yn cynnwys unrhyw berson o fewn y diffiniad a nodir yng Nghymal 35 (Dehongli).

## 38. Diddymu

1) Os yw'r aelodau'n penderfynu diddymu CGC bydd yr Ymddiriedolwyr yn aros yn eu swyddi fel Ymddiriedolwyr CGC ac yn gyfrifol am ddirwyn busnes CGC i ben yn unol â'r cymal hwn.

2) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gasglu holl asedau CGC a rhaid iddynt dalu neu wneud darpariaeth ar gyfer holl ymrwymiadau CGC.

3) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr ddefnyddio unrhyw eiddo neu arian sy'n weddill:

a). yn uniongyrchol ar gyfer yr amcanion;

b). drwy eu trosglwyddo i unrhyw elusen neu elusennau sydd â'r un dibenion neu ddibenion tebyg i CGC;

c). mewn modd arall y gall Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ('y Comisiwn') ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

4) Caiff yr aelodau basio penderfyniad cyn y penderfyniad i ddiddymu CGC neu ar yr un pryd ag ef, yn nodi'r dull y mae'r Ymddiriedolwyr i'w ddefnyddio o ran eiddo neu asedau CGC sy'n weddill a rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r penderfyniad os yw'n gyson â pharagraffau a) – c) yn is-gymal 3) uchod.

5) Ni ddylid talu asedau net CGC o dan unrhyw amgylchiadau i aelodau CGC neu eu dosbarthu rhyngddynt (heblaw am i aelod sy'n elusen ei hun).

6) Rhaid i'r Ymddiriedolwyr roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau yn brydlon fod CGC wedi'i ddiddymu. Os oes gofyn i'r Ymddiriedolwyr anfon cyfrifon CGC i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer y cyfnod cyfrifo a ddaeth i ben cyn i'r gymdeithas gael ei diddymu, rhaid iddynt anfon cyfrifon terfynol CGC i'r Comisiwn Elusennau.

**39. Diwygio'r Cyfansoddiad**

1) Caiff CGC ddiwygio unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghymalau 1-3 neu 37-39 y cyfansoddiad hwn ar yr amod

a). na ellir gwneud unrhyw ddiwygiad y byddai ei effaith yn golygu bod CGC yn peidio â bod yn elusen yn ôl y gyfraith;

b). na ellir gwneud unrhyw ddiwygiad i newid yr amcanion os byddai'r newid yn tanseilio neu'n gweithio yn erbyn amcanion blaenorol CGC;

c). na ellir gwneud unrhyw ddiwygiad i Gymalau 36 neu 37 heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol y Comisiwn Elusennau;

ch). y bydd unrhyw benderfyniad i ddiwygio darpariaeth cymalau'r cyfansoddiad hwn yn cael ei basio gan ddim llai na dau draean y cynrychiolwyr sy'n bresennol ac sy’n pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol.

2) Gall unrhyw ddarpariaeth sydd yng Nghymalau 4-35 y cyfansoddiad hwn gael ei diwygio, ond i unrhyw ddarpariaeth o'r fath gael ei gwneud drwy benderfyniad a basiwyd gan fwyafrif syml y cynrychiolwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol sydd â chworwm.

3) Bydd copi o unrhyw benderfyniad sy'n diwygio'r cyfansoddiad hwn yn cael ei anfon i'r Comisiwn Elusennau cyn pen un diwrnod ar hugain iddo gael ei basio.